

No.

PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.W. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, J.E. Charles, R. Crowley, V.P. Driscoll, O. Griffiths, K.F. McCaffer, M.J.G. Morgan, J.M. Norman, R. Nugent-Finn, S.T. Wiliam and M.R. Wilkinson.

718 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd A. Moore.

719 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, 2021 fel cofnod cywir.

720 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

721 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

722 MATER DISGYBLU – W (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Gofynnwyd i'r Pwyllgor benderfynu a oedd W yn berson addas a phriodol i ddal Trwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat Bro Morgannwg. Roedd W yn bresennol i gefnogi'r cais ac roedd cynrychiolydd o'i undeb llafur gydag ef.

Rhoddodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu grynodedb o'r adroddiad a oedd yn rhoi manylion am dri throsedd goryrru SP30 ers mis Medi 2019 a oedd wedi arwain at roi cyfanswm o 9 pwynt ar drwydded W, a methiant W i hysbysu'r Awdurdod am y

No.

troseddau hyn ar yr adeg yr oeddent wedi digwydd. Roedd tystiolaeth yn ymwneud â'r materion hyn, gan gynnwys gohebiaeth rhwng W a'r Awdurdod, wedi'i hatodi yn atodiadau A-C yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi manylion am gŵyn a wnaed gan ddau aelod o staff ym Maes Parcio Maes Awyr Caerdydd ynghylch ymddygiad W yn ystod digwyddiad ym mis Hydref 2021. Roedd datganiadau gan aelodau'r staff a W wedi'u hatodi yn atodiadau D-F yr adroddiad.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog o'r adroddiad, gwahoddodd y Cadeirydd W a'i gynrychiolydd yr undeb llafur i annerch y Pwyllgor er mwyn gwneud sylwadau llafar ynghylch y digwyddiadau a ddisgrifir yn yr adroddiad, a rhoddwyd manylion i'r Pwyllgor ynghylch amgylchiadau personol lliniarol W. Fel rhan o'r sylwadau hyn, darllenodd cynrychiolydd yr undebau llafur, gyda chaniatâd y Cadeirydd, i'r Aelodau gynnwys llythyr ategol a ddarparwyd gan gwmni a oedd yn contractio W ar gyfer trefniadau cludiant i'r ysgol. Roedd y llythyr yn tynnu sylw at y berthynas ragorol yr oedd W wedi'i sefydlu gyda'r disgyblion a gludodd ac yn nodi'r prinder gyrwyr addas ar gyfer y gwaith hwn ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd. Nid oedd y llythyr wedi'i dderbyn gan W gyda digon o amser i'w ddsbarthu i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod.

Yn dilyn hynny, holodd aelodau'r Pwyllgor W mewn perthynas â chynnwys eu sylwadau a'r adroddiad, a gofynnodd am eglurder ar nifer o faterion cyfredol a hanesyddol. Yn dilyn hyn, gwnaeth W, ei gynrychiolydd a Rheolwr y Tîm Trwyddedu ddatgysylltu o'r cyfarfod ac ymadael, a gwnaeth y Pwyllgor drafod y mater yn breifat.

Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth a gyflwynwyd ac ar ôl ystyried yr holl sylwadau

PENDERFYNODD -

- (1) BOD W yn berson addas a phriodol i ddal Trwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat Bro Morgannwg.
- (2) BOD W yn cael rhybudd ysgrifenedig terfynol yng ngoleuni pryderon y Pwyllgor ynghylch ei euogfarnau moduro diweddar a hanesyddol a'i ymddygiad fel gyrrwr.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'r Awdurdod Trwyddedu yn gyson â'r canllawiau a fabwysiadwyd ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedeion yn y diwydiant cerbydau hacni a llogi preifat.
- (2) Er mwyn sicrhau bod W yn cael ei atgoffa o'r safonau y mae Bro Morgannwg yn eu disgwyl gan ei drwyddedeion a'i gyfrifoldeb i gadw at yr holl amodau sy'n rhan o delerau ei drwyddedau. Roedd yr Aelodau'n fodlon bod ffrae gyda'r achwynwyr yn y maes awyr wedi digwydd, ymddygiad nad yw'n addas i yrrwr trwyddedig. Roedd yr Aelodau yn yr un modd yn pryderu am nifer y

No.

pwyntiau yr oedd W wedi'u cronni o yrru'n gyflymach na'r terfyn cyflymder o fewn cyfnod cymharol fyr ac roeddent am bwysleisio'r angen iddo fod yn hynod wyliadwrus wrth yrru yn y dyfodol